# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWYNEDD

## Medi 2007 – Awst 2008

Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion : Dewi Jones

**CYNNWYS**

## ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

Cadeirydd CYSAG Gwynedd
Cynghorydd Selwyn Griffiths

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Safonau Addysg Grefyddol
2.4 Y drefn hunan arfarnu
2.5 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?
2.6 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.7 Adroddiad ar Hyfforddiant Mewn Swydd
2.8 Addysg Grefyddol ac AADGOS
2.9 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

## ADRAN 3: ATODIADAU

5.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
5.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2007-8
5.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
5.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf fel Cadeirydd gyflwyno hyn o sylwadau ar waith CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad yn crynhoi o dan y penawdau perthnasol fanylion ein gwaith fel pwyllgor. Nid wyf yn dymuno ailadrodd unrhyw sylw ar wahân i ddwyn sylw at y trafodaethau a gafwyd ar yr angen i ail-fabwysiadu'r Maes Llafur Cytûn. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig gyda CYSAG Môn a chytunwyd bod y fframwaith enghreifftiol yn amlinellu'r cyd-destunau, sgiliau a disgrifiadau lefel oedd yn addas i ddisgyblion 3-19 oed. Croesawyd y ffaith bod y Fframwaith yn hwyluso elfen o gysondeb ar draws Cymru a chyda phynciau eraill. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd 23 o adroddiadau arolygwyr ar ysgolion yng Ngwynedd ac ymhob achos roedd y nodweddion da yn llawer mwy sylweddol na'r rhestr o ddiffygion. Braf iawn yw cydnabod yr agwedd gadarnhaol sy'n bodoli yn Ysgolion Gwynedd. Mae ein diolch i ymdrechion pob athro sy'n addysgu Addysg Grefyddol yn ein hysgolion. Erbyn hyn hefyd mae'r drefn o dderbyn adroddiad o hunan arfarniad ysgolion sy'n cael eu harolygiad gan Estyn wedi'i sefydlu. Mae'n fodd hwylus i CYSAG gael monitro pan nad yw Addysg Grefyddol yn y rhestr pynciau i gael eu harolygu.

Derbyniwyd data gan Cynnal yn dangos cyrhaeddiad disgyblion ar sail asesiadau athrawon yn CA3, canlyniadau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol. Mae'n bleser gennyf gydnabod ansawdd y canlyniadau sy'n dystiolaeth o ymdrechion disgyblion ac athrawon yn ysgolion y sir yn y maes Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Hefyd rydym yn hynod o ffodus yn y gwaith cefnogol mae Miss Bethan James, Ymgynghorydd Y Dyniaethau a Mrs Carol Llewelyn Jones, Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol yn ei ddarparu yn cefnogi gwaith disgyblion yn yr ysgolion. Mae'r arweiniad sydd wedi'i roi ganddynt hefyd yn llunio'r Maes Lafur Cytûn ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn werthfawrogol gan CYSAG Gwynedd. Eleni yw'r tro cyntaf i Addysg Grefyddol gael ei chynnwys mewn adolygiad o'r cwricwlwm ac felly mae'n cynnig cyfle unigryw i CYSAGau Cymru ac fel Cadeirydd lleol rwy'n cymeradwyo'r ymdrech i greu fframwaith cenedlaethol i ysgolion Cymru.

Hoffwn yn naturiol gydnabod cyfraniad ac ymroddiad aelodau pwyllgor CYSAG dros y flwyddyn ynghyd â'r gefnogaeth i mi ar bob achlysur. Mae cyfraniad pob cynrychiolydd wedi'i werthfawrogi a diolch hefyd am arweiniad a chefnogaeth y swyddogion.

Cyflwynaf yr adroddiad hwn yn hyderus y bydd gwaith da sydd eisoes yn bodoli yn parhau dros y blynyddoedd sydd i ddod.

**Cynghorydd Selwyn Griffiths**
Cadeirydd CYSAG Gwynedd

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig yn dilyn Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn. Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn a'r canllawiau asesu 'Mesur Cynnydd Mewn Addysg Grefyddol' fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

**Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (dogfen ymgynghorol 2007)**

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar gyfer aelodau CYSAG Gwynedd a chynrychiolwyr o CYSAG Môn ar Ddydd Iau, 15 o Fawrth 2007. Cytunwyd bod y fframwaith enghreifftiol yn amlinellu y cyd-destunau, sgiliau a disgrifiadau lefel oedd yn addas i ddisgyblion o 3-19 oed. Roeddynt o'r farn y dylai CYSAG Gwynedd a CYSAG Môn fabwysiadu'r fframwaith enghreifftiol fel maes llafur cytûn lleol. Manteisiodd yr ymgynghorydd dyniaethau a'r athrawes ymgynghorol ar gyrsiau HMS i drafod y ddogfen ymgynghorol gydag athrawon cynradd ac uwchradd Gwynedd. Roeddent yn croesawu'r ffaith bod y Fframwaith yn hwyluso elfen o gysondeb ar draws Cymru a chyda phynciau eraill. Nid oeddynt yn teimlo bod angen addasu fformat na chynnwys y Fframwaith ond roeddynt yn awyddus i dderbyn canllawiau ac arweiniad enghreifftiol

**Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (dogfen derfynol 2008)**

Sefydlwyd gweithgor o athrawon cynradd ac uwchradd o Ynys Môn a Gwynedd i baratoi canllawiau ac arweiniad enghreifftiol i gefnogi y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol newydd.

## 2.3 Safonau Addysg Grefyddol

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol trwy adolygu adroddiadau arolygiadau ysgol a thrwy derbyn crynodeb o ddogfennau hunan arfarnu ysgolion.

**2.3.1** Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd 23 o adroddiadau arolygwyr ar ysgolion yng Ngwynedd a chyflwynwyd y rhannau canlynol o bob adroddiad i sylw CYSAG:

- enw'r ysgol
- enw'r tîm arolygu
- y cyfeiriad at Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion fel ymateb yr ysgol a'r tîm arolygu i Gwestiwn allweddol 3: *Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?*
- yr adroddiad ar Addysg Grefyddol fel ymateb yr ysgol a'r tîm arolygu i gwestiwn allweddol 1: Pam mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?
- unrhyw fater allweddol perthnasol

| | | |
|---|---|---|
| Nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd: | cynradd | 20 |
| | uwchradd | 3 |

### 2.3.2 Addysg Grefyddol: Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?

Arolygwyd Addysg Grefyddol fel pwnc penodol mewn 6 ysgol.

| | **Gradd 1**<br>Da gyda nodweddion rhagorol | **Gradd 2**<br>Nodweddion da a dim diffygion pwysig | **Gradd 3**<br>Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | **Gradd 4**<br>Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig | **Gradd 5**<br>Llawer o ddiffygion pwysig |
|---|---|---|---|---|---|
| **CA1** | | 4 | | | |
| **CA2** | 1 | 2 | 2 | | |
| **CA3** | 1 | | | | |
| **CA4** | 1 | | | | |
| **Chweched dosbarth** | | | | | |
| **Cyfanswm** | 3 | 6 | 2 | | |

Roedd yr arolygiadau yn dilyn y drefn arferol o gyfeirio at nodweddion da a rhagorol ac at ddiffygion. Ym mhob achos roedd y nodweddion da yn llawer mwy sylweddol na'r rhestr o ddiffygion. Mewn dwy ysgol nodwyd nad oedd unrhyw ddiffygion arwyddocaol. Anfonwyd llythyr yn enw'r CYSAG yn llongyfarch yr ysgolion am y gwaith da o fewn y maes.

Rhai o'r cryfderau a amlygwyd mewn nifer o ysgolion oedd:

- Bod y disgyblion yn gwybod am arwyddocâd y Beibl i'r ffydd Gristnogol ac am rai o straeon yr Hen Destament a'r Testament Newydd.

- Bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ymweld ag addoldai yn y gymuned. Mae hyn yn ychwanegu llawer at eu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion a gwyliau Cristnogol. Trafodant symbolau crefyddol yn dda. Mae disgyblion yr ysgol uwchradd yn cael cyfleoedd cyson i ymweld ag eglwysi, mosgiau a synagogau..

- Dealltwriaeth disgyblion o bwrpas gweddïo. Cyfansoddant weddïau syml eu hunain sy'n codi o'u profiadau personol.

- Gwybodaeth disgyblion o bob oed am gyfraniadau arweinwyr a chymwynaswyr a'r modd y mae credoau personol wedi dylanwadu ar ffyrdd o fyw pobl.

- Bod disgyblion yn mynegi barn yn dda ar bynciau megis gofal, cyfeillgarwch a heddwch ac maent yn ymwybodol o amgylchiadau bywyd pobl sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. Maent yn trafod yn hyderus y pwysigrwydd o warchod a gofalu am y byd a'u cyfrifoldeb nhw yn y broses.

- Gallu disgyblion o bob oed i drafod nodweddion nifer o wahanol grefyddau. Gwyddant am lyfrau sanctaidd, defodau a gwyliau a berthyn i grefyddau mawr y byd.

- Bod disgyblion CA3 a CA4 yn mynegi eu safbwyntiau personol yn hyderus mewn parau, grwpiau ac o flaen y dosbarth cyfan. Maent yn archwilio a thrafod nifer o sefyllfaoedd moesol a gysylltir gydag ysgariad, godineb, gwrywgydiaeth, cyfrifoldeb plant tuag at rieni a hwaliau'r plant eu hunain, mewn dull hynod aeddfed. Gwnânt astudiaethau manwl o wrthdaro crefyddol cyfoes.

Nodwyd rhai diffygion sy'n amlygu'u hunain mewn *rhai* ysgolion:

- Arwynebol yw gwybodaeth a dealltwriaeth o rai ddisgyblion o grefyddau'r byd ac o wahanol arteffactau crefyddol.
- Nid yw disgyblion CA2 yn ddigon cyfarwydd a damhegion a gwyrthiau'r Iesu na'r negeseuon sydd y tu cefn iddynt.
- Arwynebol yw dealltwriaeth disgyblion CA2 o arwyddocâd pererindod i gredinwyr.

Fel mater o drefn, rhoddir sylw i'r diffygion a nodir gan yr ysgol a gan swyddogion addysg y sir a'r ymgynghorydd dyniaethau a'r athro/athrawes ymgynghorol (CYNNAL). Os ydynt yn amlygu'u hunain mewn nifer o ysgolion yna mae'r hyn a nodir yn cael dylanwad ar gynnwys y rhaglen hyfforddiant mewn swydd. Os yw'r arolygiad yn nodi bod safonau yn anfoddhaol bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu ôl arolygiad ac yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth ymgynghorol.

### 2.3.3 Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

Mae pob tîm arolygu yn adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Cyflwynwyd yr adrannau perthnasol o adroddiadau 23 ysgol i sylw aelodau CYSAG.

| | **Gradd 1** Da gyda nodweddion rhagorol | **Gradd 2** Nodweddion da a dim diffygion pwysig | **Gradd 3** Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | **Gradd 4** Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig | **Gradd 5** Llawer o ddiffygion pwysig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd** | 4 | 15 | | 1 | |
| **Ysgolion uwchradd** | 2 | 1 | | | |
| **Cyfanswm** | **6** | **16** | | 1 | |

Rhai o'r cryfderau a amlygwyd mewn nifer o ysgolion oedd:

- Bod ystod o weithgareddau cwricwlaidd a chyfnodau rheolaidd megis sesiynau addoli ar y cyd, amser cylch a Chyngor yr Ysgol, caiff y disgyblion gyfleoedd da i ymarfer eu medrau ac i drafod materion sydd o bwys iddynt. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n dda at greu ethos dymunol yn yr ysgol.
- Bod cydaddoli yn ganolog i hyrwyddo hunan barch a gwerthoedd moesol y disgyblion.
- Y cyfleoedd cyson a rhoddir i'r disgyblion gyfrannu i'r sesiynau addoli ar y cyd. Cyfoethogir y ddarpariaeth trwy ymweliadau a chyflwyniadau clerigwyr. Mewn rhai ysgolion mae'r disgyblion yn cyfrannu at gynllunio rhai o'r addoliadau a gwnânt hynny gyda dealltwriaeth o'r anghenion.
- Bod athrawon a'r holl oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn fodelau rôl gwych.

Nodwyd rhai diffygion mewn rhai ysgolion:

- Nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i fyfyrio ar y prif negeseuon.
- Ni roddir sylw digonol i wahaniaethu rhwng awyrgylch gwers ag awyrgylch addoliad i hybu agweddau ysbrydol.
- Nid oedd gan un ysgol uwchradd drosolwg o gyfraniad pob pwnc i ddatblygiad ysbrydol disgyblion.

## 2.4 Y drefn hunan arfarnu

Mae Cwmni Cynnal wedi llunio llawlyfr ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad iddynt ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi mewn gwersi, casglu esiamplau o waith, y defnydd o iaith, sicrhau cysondeb trwy'r adran gyfan ac ar drafod â disgyblion. Cyfeirir athrawon hefyd at y saith cwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda mae'r dysgwyr yn dysgu? – bydd Addysg Grefyddol fel pwnc yn cael ei fesur o dan y cwestiwn hwn;
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu a'r asesu?
3. Pa mor dda mae'r profiadau dysgu'n bodloni anghenion a diddordebau'r dysgwyr a'r gymuned?
4. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gynhaliaeth i ddysgwyr – bydd safon y ddarpariaeth ysbrydol a moesol mewn ysgol yn cael ei fesur yn erbyn y maen brawf yma?
5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
7. Pa mor effeithiol yw'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau;

Penderfynwyd yng nghyfarfod 23 Chwefror 2005 y byddai CYSAG Gwynedd yn derbyn copi o hunan arfarniad ysgolion sydd yn derbyn arolygiadau pan nad oes adroddiad penodol ar Addysg Grefyddol, yn y flwyddyn pan arolygir yr ysgol.

Derbyniwyd 10 adroddiad hunan arfarniad yn ystod y flwyddyn: uwchradd 0
cynradd 10

Mae'r adroddiad yn nodi ymateb yr ysgol i gwestiwn allweddol 1 a 3 o'r fframwaith arolygu. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ac i nodi'r agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** | | | | | **Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
| Cynradd | 1 | 7 | | | | 1 | 7 | | | |
| Uwchradd | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm | 1 | 7 | | | | 1 | 7 | | | |

*Ni dderbyniwyd gradd gan un ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y rhaglen astudio a'r profiadau dysgu a  baratowyd i'r disgyblion;
- gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o arferion, addoldai a straeon crefyddol;
- y ffaith bod disgyblion yn mwynhau cyfrannu i'r sesiynau addoli ar y cyd;
- ddatblygiad ysbrydol eu disgyblion;
- gallu'r disgyblion i drafod pynciau a chwestiynau crefyddol;
- ymwybyddiaeth y disgyblion o gymeriad Cristnogol eu cymunedau.

Ymhlith yr agweddau fydd yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn nesaf mae:

- defnyddio strategaethau medrau meddwl yn y gwersi addysg grefyddol er mwyn datblygu gallu disgyblion i drafod materion a chwestiynau mawr crefyddol ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- ceisio sicrhau mwy o gyfleoedd i ymweld ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i'r ysgolion;
- ymgyfarwyddo â Fframwaith Cenedlaethol Enghreifftiol Addysg Grefyddol a gofynion Cwricwlwm 2008.

## 2.5 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?

### Safonau CA3

Cyflwynir canlyniadau CA3 er wybodaeth yn unig. Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Nid yw'r disgyblion yn sefyll yr un profion na thasgau asesu cyffredin ar draws y sir ac nid yw athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i safoni gwaith eu disgyblion gydag adrannau eraill. Gall athrawon gyfeirio at y gyfrol 'Mesur Cynnydd Mewn Addysg Grefyddol' (Gwynedd a Môn, 2001) er mwyn adnabod nodweddion lefelau penodol. Dosbarthwyd Deunyddiau Asesu Dewisiol Addysg Grefyddol gan ACCAC yn 2005. Mae'r rhain hefyd yn cynnig tasgau a chanllawiau asesu i athrawon. Nid yw Llwyodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data Addysg Grefyddol on d mae CYNNAL wedi casglu asesiadau athrawon o gyrhaeddiad disgyblion CA4 mewn addysg grefyddol ers 1999.

| Canlyniadau CA3 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | E | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 5+ |
| Ysgol Dyffryn Ogwen (74) | 1.4 (1) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 5.4 (4) | 25.7 (19) | 28.4 (21) | 17.6 (13) | 21.6 (16) | 0.0 (0) | 67.6 (50) |
| Ysgol Botwnnog (94) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.1 (1) | 23.4 (22) | 22.3 (21) | 42.6 (40) | 10.6 (10) | 0.0 (0) | 75.5 (71) |
| Ysgol Brynrefail (109) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 5.5 (6) | 11.9 (13) | 41.3 (45) | 25.7 (28) | 15.6 (17) | 0.0 (0) | 82.6 (90) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle (95) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 11.6 (11) | 15.8 (15) | 29.5 (28) | 30.5 (29) | 12.6 (12) | 0.0 (0) | 72.6 (69) |
| Ysgol Eifionydd (111) | 2.7 (3) | 0.0 (0) | 2.7 (3) | 18.9 (21) | 11.7 (13) | 49.5 (55) | 11.7 (13) | 2.7 (3) | 0.0 (0) | 64.0 (71) |
| Ysgol Y Gader (61) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.6 (1) | 23.0 (14) | 29.5 (18) | 44.3 (27) | 1.6 (1) | 0.0 (0) | 75.4 (46) |
| Ysgol Y Moelwyn (84) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.2 (1) | 4.8 (4) | 17.9 (15) | 48.8 (41) | 21.4 (18) | 6.0 (5) | 0.0 (0) | 76.2 (64) |
| Ysgol Uwchradd Tywyn (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) |
| Ysgol Y Berwyn (75) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 4.0 (3) | 5.3 (4) | 60.0 (45) | 18.7 (14) | 12.0 (9) | 0.0 (0) | 90.7 (68) |
| Ysgol Ardudwy (82) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 6.1 (5) | 24.4 (20) | 53.7 (44) | 15.9 (13) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 69.5 (57) |
| Ysgol Friars (199) | 1.5 (3) | 1.0 (2) | 5.5 (11) | 7.5 (15) | 22.6 (45) | 39.2 (78) | 15.1 (30) | 7.5 (15) | 0.0 (0) | 61.8 (123) |
| Ysgol Tryfan (51) | 2.0 (1) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 2.0 (1) | 23.5 (12) | 19.6 (10) | 27.5 (14) | 25.5 (13) | 0.0 (0) | 72.5 (37) |
| Ysgol Syr Hugh Owen (155) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 11.0 (17) | 18.7 (29) | 38.7 (60) | 23.2 (36) | 8.4 (13) | 0.0 (0) | 70.3 (109) |
| Ysgol Glan y Môr (108) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 12.0 (13) | 29.6 (32) | 26.9 (29) | 19.4 (21) | 12.0 (13) | 0.0 (0) | 58.3 (63) |
| | | | | | | | | | | |
| Gwynedd (1298) | 0.6 (8) | 0.2 (2) | 1.2 (15) | 7.9 (102) | 19.5 (253) | 38.1 (495) | 22.8 (296) | 9.8 (127) | 0.0 (0) | 70.7 (918) |
| | | | | | | | | | | |
| Cynnal (2440) | 1.4 (34) | 0.1 (3) | 0.7 (17) | 6.8 (166) | 19.5 (476) | 35.2 (860) | 25.1 (612) | 11.0 (268) | 0.2 (4) | 71.5 (1,744) |

E = nifer nas cafodd lefel 1 - 8

**Canlyniadau TGAU – 'Astudiaethau Crefyddol' 2007**

Canlyniadau TGAU yn ôl cohort 15 oed.

| | A*/A% | | | A* - C% | | | A - G | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** |
| **Gwynedd** | 17.7 | 28.5 | 42.1 | 49.4 | 74.6 | 77.6 | 100 | 100 | 97.8 |
| **CYMRU** | *24.3** | 24.6 | 30.5 | *63.2** | 63.9 | 69.3 | *96.9** | 96.3 | 96.3 |

**Data Manyleb A CBAC*

**Sylwadau**

Ar y cyfan, canlyniadau siomedig.

- 79 ymgeisydd, 63 o enethod ac 16 o fechgyn, sy'n llai na'r 144 o ymgeiswyr oedd wedi sefyll yr arholiad llynedd.
- Daw'r ymgeiswyr o 7 o ysgolion Gwynedd (14), gyda'r niferoedd yn amrywiol o 4 disgybl mewn un ysgol i 16 mewn ysgol arall.
- Canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn.
- Llwyddodd pawb i ennill gradd TGAU (cwrs llawn), gydag 48.4% yn ennill gradd A*-C. Mae 17.7% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A*/A.
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 4.5 sy'n is na'r sgôr o 5.0 yn y pynciau eraill.
- Sgôr gyfartalog y genethod (4.7) yn ychydig yn is na'u sgôr yn y pynciau eraill (4.9) a sgôr cyfartalog y bechgyn (3.7) yn sylweddol is na'u sgôr gyfartalog yn y pynciau eraill (4.9).

**Canlyniadau TGAU – 'Astudiaethau Crefyddol' (Cwrs Byr) 2007**

Canlyniadau TGAU yn ôl cohort 15 oed

| | A*/A% | | | A* - C% | | | A - G | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** |
| **Gwynedd** | 30.1 | 34.1 | 37.5 | 88.3 | 74.6 | 78.6 | 100 | 100 | 96.4 |
| **CYMRU** | *17.8** | 16.7 | 21.0 | *56.7** | 62.9 | 60.6 | *94.5** | 95.0 | 95.5 |

**Data Manyleb A CBAC*

**Sylwadau**

Canlyniadau da.

- 163 o ymgeiswyr, 132 o enethod a 31 bachgen, sydd yn fwy na'r flwyddyn flaenorol oedd yn 126. Roedd 112 ymgeisydd yn 2005 felly mae poblogrwydd y cwrs byr yn cynyddu.
- Mae disgyblion o 6 o ysgolion Gwynedd (14) yn sefyll arholiad cwrs byr TGAU, ac mae'r niferoedd yn amrywio o 1 mewn un ysgol i 57 mewn ysgol arall.
- Canlyniadau'r merched yn rhagori ar rai'r bechgyn.
- Llwyddodd pawb i ennill gradd TGAU (cwrs byr), gydag 88.3% yn ennill gradd A*-C. Mae 30.1% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A*/A.

**Canlyniadau Safon Uwch – Astudiaethau Crefyddol 2007**

Canlyniadau Lefel A yn ôl cohort blwyddyn 13 wedi sefyll arholiad.

| | A*/A% | | | A* - C% | | | A - E | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** |
| **Gwynedd (ysgolion)** | 20 | 23.5 | 12 | 64 | 82.4 | 76 | 96 | 100 | 100 |
| **CYMRU** | 21.2 | 14.4 | 14.5 | 76.0 | 64.3 | 65.1 | 98.7 | 97.5 | 98.2 |

**Sylwadau**

Canlyniadau boddhaol.

- 25 o ymgeiswyr, 21 o ferched a 4 bachgen.
- Ymgeiswyr o 4 ysgol uwchradd yn y sir ac mae maint y dosbarthiadau yn amrywio o 5 i 8 disgybl.
- 96% o'r ymgeiswyr yn ennill gradd Safon Uwch.
- Sgôr gyfartalog y pwnc yn yr ysgolion yw 82.4 yn ychydig yn uwch na'r 80.3 yn y pynciau eraill.
- Canlyniadau'r merched yn rhagori ar y bechgyn. Mae sgôr gyfartalog y genethod (87.6) yn uwch na'r sgôr yn y pynciau eraill (82.3) a sgôr cyfartalog y bechgyn (55.0) yn is na'r sgôr gyfartalog yn y pynciau eraill (69.1).

**Canlyniadau Uwch Gyfrannol – Astudiaethau Crefyddol 2007**

Canlyniadau Lefel UG yn ôl cohort blwyddyn 12 wedi sefyll arholiad.

| | A*/A% | | | A* - C% | | | A - E | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** | **'07** | **'06** | **'05** |
| **Gwynedd (ysgolion)** | 9.1 | 15.4 | 12 | 66 | 82.4 | 76 | 96 | 65.4 | 100 |
| **CYMRU** | 16.1 | 15.2 | 11.3 | 59.2 | 54.0 | 51.8 | 91.2 | 87.8 | 87.0 |

**<u>Sylwadau</u>**

Canlyniadau siomedig.

- 11 o ymgeiswyr, 9 o ferched a 2 bachgen.
- Ymgeiswyr o 3 ysgol uwchradd yn y sir ac mae maint y dosbarthiadau yn amrywio o 2 i 5 disgybl.
- 63.6% o'r ymgeiswyr yn ennill gradd Uwch Gyfrannol, 27.3% yn ennill gradd A -C a 9.1% yn ennill gradd A.
- Mae sgôr gyfartalog y pwnc yn yr ysgolion (22.7) yn is na sgôr cyfartalog y pynciau eraill (32.5).
- Canlyniadau'r bechgyn yn rhagori ar ganlyniadau'r merched. Mae sgôr gyfartalog y bechgyn (50.0) yn uwch na'r sgôr yn y pynciau eraill (47.1) a sgôr cyfartalog y merched (16.7) yn is na'r sgôr gyfartalog yn y pynciau eraill (27.6)

## CA3 ADDYSG GREFYDDOL - RELIGIOUS EDUCATION KS3 GWYNEDD 2007

| Canlyniadau CA3 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **E** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **5+** |
| | | | | | | | | | | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen (74) | 1.4 (1) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 5.4 (4) | 25.7 (19) | 28.4 (21) | 17.6 (13) | 21.6 (16) | 0.0 (0) | 67.6 (50) |
| Ysgol Botwnnog (94) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.1 (1) | 23.4 (22) | 22.3 (21) | 42.6 (40) | 10.6 (10) | 0.0 (0) | 75.5 (71) |
| Ysgol Brynrefail (109) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 5.5 (6) | 11.9 (13) | 41.3 (45) | 25.7 (28) | 15.6 (17) | 0.0 (0) | 82.6 (90) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle (95) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 11.6 (11) | 15.8 (15) | 29.5 (28) | 30.5 (29) | 12.6 (12) | 0.0 (0) | 72.6 (69) |
| Ysgol Eifionydd (111) | 2.7 (3) | 0.0 (0) | 2.7 (3) | 18.9 (21) | 11.7 (13) | 49.5 (55) | 11.7 (13) | 2.7 (3) | 0.0 (0) | 64.0 (71) |
| Ysgol Y Gader (61) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.6 (1) | 23.0 (14) | 29.5 (18) | 44.3 (27) | 1.6 (1) | 0.0 (0) | 75.4 (46) |
| Ysgol Y Moelwyn (84) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.2 (1) | 4.8 (4) | 17.9 (15) | 48.8 (41) | 21.4 (18) | 6.0 (5) | 0.0 (0) | 76.2 (64) |
| Ysgol Uwchradd Tywyn (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) |
| Ysgol Y Berwyn (75) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 4.0 (3) | 5.3 (4) | 60.0 (45) | 18.7 (14) | 12.0 (9) | 0.0 (0) | 90.7 (68) |
| Ysgol Ardudwy (82) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 6.1 (5) | 24.4 (20) | 53.7 (44) | 15.9 (13) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 69.5 (57) |
| Ysgol Friars (199) | 1.5 (3) | 1.0 (2) | 5.5 (11) | 7.5 (15) | 22.6 (45) | 39.2 (78) | 15.1 (30) | 7.5 (15) | 0.0 (0) | 61.8 (123) |
| Ysgol Tryfan (51) | 2.0 (1) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 2.0 (1) | 23.5 (12) | 19.6 (10) | 27.5 (14) | 25.5 (13) | 0.0 (0) | 72.5 (37) |
| Ysgol Syr Hugh Owen (155) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 11.0 (17) | 18.7 (29) | 38.7 (60) | 23.2 (36) | 8.4 (13) | 0.0 (0) | 70.3 (109) |
| Ysgol Glan y Môr (108) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 12.0 (13) | 29.6 (32) | 26.9 (29) | 19.4 (21) | 12.0 (13) | 0.0 (0) | 58.3 (63) |
| | | | | | | | | | | |
| Gwynedd (1298) | 0.6 (8) | 0.2 (2) | 1.2 (15) | 7.9 (102) | 19.5 (253) | 38.1 (495) | 22.8 (296) | 9.8 (127) | 0.0 (0) | 70.7 (918) |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| Cynnal (2440) | 1.4 (34) | 0.1 (3) | 0.7 (17) | 6.8 (166) | 19.5 (476) | 35.2 (860) | 25.1 (612) | 11.0 (268) | 0.2 (4) | 71.5 (1,744) |

E = nifer nas cafodd lefel 1 - 8

| Canlyniadau TGAU yn ôl cohort 15 oed (yn cynnwys GNVQ Rhan 1 Sylfaenol a Chanolradd) | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Nifer yn sefyll** | | | **% A*/A** | | | **% A*-C** | | | **% A*-G** | | | **Sgôr Cyfartalog y pwnc** | | | **Sgôr Cyfartalog pynciau eraill** | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| Ysgol Botwnnog | 7 | 7 | 14 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 7.1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.1 | 3.0 | 2.6 | 4.3 | 4.4 | 4.3 |
| Ysgol Brynrefail | 2 | 14 | 16 | 0.0 | 21.4 | 18.8 | 0.0 | 71.4 | 62.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 3.0 | 5.1 | 4.9 | 4.7 | 5.4 | 5.3 |
| Ysgol Eifionydd | 2 | 10 | 12 | 0.0 | 10.0 | 8.3 | 100.0 | 80.0 | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 5.5 | 5.2 | 5.3 | 5.1 | 4.9 | 4.9 |
| Ysgol Ardudwy | 1 | 3 | 4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 7.0 | 7.7 | 7.5 | 7.3 | 7.0 | 7.1 |
| Ysgol Tryfan | 3 | 8 | 11 | 0.0 | 25.0 | 18.2 | 66.7 | 50.0 | 54.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 4.3 | 5.3 | 5.0 | 4.9 | 4.9 | 4.9 |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 1 | 7 | 8 | 100.0 | 0.0 | 12.5 | 100.0 | 42.9 | 50.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 7.0 | 3.9 | 4.3 | 6.5 | 4.7 | 4.9 |
| Ysgol Glan y Môr | 0 | 14 | 14 | 0.0 | 21.4 | 21.4 | 0.0 | 28.6 | 28.6 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 4.0 | 4.0 | 0.0 | 4.7 | 4.7 |
| Gwynedd | 16 | 63 | 79 | 12.5 | 19.0 | 17.7 | 37.5 | 52.4 | 49.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 3.7 | 4.7 | 4.5 | 4.9 | 5.0 | 5.0 |
| Cynnal | 26 | 138 | 164 | 15.4 | 25.4 | 23.8 | 42.3 | 72.5 | 67.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 4.0 | 5.3 | 5.1 | 5.0 | 5.3 | 5.2 |

## TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (CWRS BYR) - RELIGIOUS STUDIES GCSE (SHORT COURSE)

| Canlyniadau TGAU yn ôl cohort 15 oed (yn cynnwys GNVQ Rhan 1 Sylfaenol a Chanolradd) | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Nifer yn sefyll** | | | **% A*/A** | | | **% A*-C** | | | **% A*-G** | | | **Sgôr Cyfartalog y pwnc** | | | **Sgôr Cyfartalog pynciau eraill** | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 0 | 16 | 16 | 0.0 | 18.8 | 18.8 | 0.0 | 87.5 | 87.5 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 2.9 | 2.9 | 0.0 | 5.3 | 5.3 |
| Ysgol Eifionydd | 0 | 3 | 3 | 0.0 | 33.3 | 33.3 | 0.0 | 66.7 | 66.7 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 2.3 | 2.3 | 0.0 | 5.5 | 5.5 |
| Ysgol Y Gader | 2 | 36 | 38 | 50.0 | 75.0 | 73.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 3.0 | 3.6 | 3.5 | 4.4 | 5.7 | 5.6 |
| Ysgol Y Moelwyn | 14 | 34 | 48 | 0.0 | 41.2 | 29.2 | 71.4 | 88.2 | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.4 | 3.0 | 2.8 | 3.1 | 4.5 | 4.1 |
| Ysgol Y Berwyn | 15 | 42 | 57 | 0.0 | 4.8 | 3.5 | 73.3 | 90.5 | 86.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.5 | 2.6 | 2.6 | 5.6 | 5.8 | 5.7 |
| Ysgol Friars | 0 | 1 | 1 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 4.0 | 4.0 | 0.0 | 5.3 | 5.3 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwynedd | 31 | 132 | 163 | 3.2 | 36.4 | 30.1 | 74.2 | 91.7 | 88.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.5 | 3.0 | 2.9 | 4.4 | 5.3 | 5.2 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnal | 26 | 138 | 164 | 15.4 | 25.4 | 23.8 | 42.3 | 72.5 | 67.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 4.0 | 5.3 | 5.1 | 5.0 | 5.3 | 5.2 |

## LEFEL A ASTUDIAETHAU CREFYDDOL - RELIGIOUS STUDIES A LEVEL

| Canlyniadau Lefel A yn ôl cohort blwyddyn 13 wedi sefyll arholiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Nifer yn sefyll | | | % A | | | % A-C | | | % A-E | | | Sgôr Cyfartalog y pwnc | | | Sgôr Cyfartalog pynciau eraill | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 0 | 8 | 8 | 0.0 | 25.0 | 25.0 | 0.0 | 87.5 | 87.5 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 92.5 | 92.5 | 0.0 | 88.5 | 88.5 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 2 | 3 | 5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 33.3 | 20.0 | 50.0 | 100.0 | 80.0 | 30.0 | 60.0 | 48.0 | 48.0 | 51.1 | 50.0 |
| Ysgol Y Berwyn | 0 | 7 | 7 | 0.0 | 42.9 | 42.9 | 0.0 | 71.4 | 71.4 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 94.3 | 94.3 | 0.0 | 85.6 | 85.6 |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 2 | 3 | 5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 50.0 | 66.7 | 60.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 80.0 | 86.7 | 84.0 | 86.7 | 88.9 | 88.0 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwynedd | 4 | 21 | 25 | 0.0 | 23.8 | 20.0 | 25.0 | 71.4 | 64.0 | 75.0 | 100.0 | 96.0 | 55.0 | 87.6 | 82.4 | 69.1 | 82.3 | 80.3 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnal | 20 | 86 | 106 | 15.0 | 20.9 | 19.8 | 70.0 | 81.4 | 79.2 | 95.0 | 100.0 | 99.1 | 80.0 | 91.6 | 89.4 | 82.0 | 90.7 | 89.0 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| Canlyniadau Lefel AS yn ôl cohort blwyddyn 12 wedi sefyll arholiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Nifer yn sefyll** | | | **% A** | | | **% A-C** | | | **% A-E** | | | **Sgôr Cyfartalog y pwnc** | | | **Sgôr Cyfartalog pynciau eraill** | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 0 | 5 | 5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 20.0 | 20.0 | 0.0 | 4.0 | 4.0 | 0.0 | 11.4 | 11.4 |
| Ysgol Brynrefail | 1 | 1 | 2 | 100.0 | 0.0 | 50.0 | 100.0 | 0.0 | 50.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 60.0 | 30.0 | 45.0 | 57.5 | 36.7 | 48.6 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 1 | 3 | 4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 33.3 | 50.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 40.0 | 33.3 | 35.0 | 33.3 | 35.5 | 35.0 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwynedd | 2 | 9 | 11 | 50.0 | 0.0 | 9.1 | 100.0 | 11.1 | 27.3 | 100.0 | 55.6 | 63.6 | 50.0 | 16.7 | 22.7 | 47.1 | 27.6 | 32.5 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnal | 18 | 88 | 106 | 5.6 | 25.0 | 21.7 | 44.4 | 70.5 | 66.0 | 83.3 | 90.9 | 89.6 | 32.2 | 40.9 | 39.4 | 35.6 | 41.5 | 40.4 |

## 2.6 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Gwynedd yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg.

**Blaenoriaethau Cynllun Addysg Sengl Gwynedd 2006-8** oedd:

1. Parhau i gynnal a chodi safonau a gwella perfformiad ysgolion a gynhelir.

2. Darparu gwasanaeth o safon ar gyfer disgyblion sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol.

3. Darparu cefnogaeth, cyngor ac adnoddau i ysgolion i'w cynorthwyo i hyrwyddo ymddygiad da ac i gefnogi disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol tu fewn a thu allan i'r ysgol.

4. Codi safonau addysg disgyblion nad ydynt yn cael eu haddysgu mewn ysgolion.

5. Sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer hyrwyddo'r egwyddor o ysgolion gyda ffocws cymunedol.

6. Cynllunio ar gyfer darparu llefydd mewn ysgolion ac ar gyfer y blynyddoedd cynnar.
.

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd ac Awdurdod Addysg Môn yn darparu cefnogaeth ariannol i CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifioldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2007-8) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

### 2.6.1 Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yn derbyn cefnogaeth gan CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Bydd yr Ymgynghorodd Dyniaethau a'r Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) yn ymweld ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen 'hawl a haeddiant'. Byddant yn cynorthwyo athrawon wrth iddynt gynllunio'u rhaglenni astudio a'u cynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Mae datblygu medrau meddwl dysgwyr ac asesu ar gyfer dysgu yn flaenoriaeth i nifer o athrawon y sir. Mae CYNNAL yn cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Mae cyfraniad yr Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a'r athro/athrawes ymgynghorol yn cyflwyno adroddiad tymhorol i sylw CYSAG. Mae'r cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf

yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith a wneir gydag ysgolion yr AALl. Prif ffocws trafodaethau 2007-8 oedd y Fframwaith Enghreifftiol (anstatudol) Addysg Grefyddol a gyflwynwyd gan APADGOS, a'r ddarpariaeth o addysg grefyddol i ddisgyblion ôl 16.

Bob tymor bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol.

**Mrs Carol Llewelyn Jones – Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol**

Penodwyd Mrs Carol Llewelyn Jones fel athrawes ymgynghorol rhan amser yn Ionawr 2007. Bu'n weithgar yn paratoi a chynnal cyrsiau hyfforddiant i athrawon uwchradd y sir a chefnogi adrannau unigol wrth iddynt ymateb i'r broses hunan arfarnu newydd a pharatoi at arolygiadau. Cyfrannodd at waith y gweithgor oedd yn gyfrifol am ddatblygu canllawiau ac arweiniad enghreifftiol i gefnogi'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol newydd.

## 2.7 Hyfforddiant Mewn Swydd

### 2.7.1 Adroddiad ar hyfforddiant mewn swydd 2007-8

Fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Addysg mae CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol) yn darparu rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon yr Awdurdod. Mae'r Cynllun Strategol Addysg yn cyfeirio at bwysigrwydd y rhaglen hyfforddi fel ffordd o sicrhau bod athrawon yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd, rhannu arferion da a chydweithio i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu a deunyddiau pwrpasol. Anelir at sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn ymateb i anghenion ysgolion ac athrawon trwy ymgynghori gyda phenaethiaid, athrawon a thiwtoriaid proffesiynol yn yr ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd paneli pwnc uwchradd mewn rhai ardaloedd i drafod blaenoriaethau ac i gynnig arweiniad ar y rhaglen hyfforddiant. Yn ogystal â hynny rhoddwyd sylw i flaenoriaethau'r Awdurdod, i sylwadau ESTYN, ac i sylwadau sydd yn ymddangos mewn adroddiadau arolygol.

Mae penaethiaid cynradd ac uwchradd y sir wedi cytuno i gau'r ysgolion am ddau ddiwrnod er mwyn cynnal cyrsiau hyfforddiant ysgol ganolog neu fel consortiwm. Y tiwtoriaid proffesiynol oedd yn gyfrifol am ddewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion uwchradd a'r penaethiaid oedd yn dewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion cynradd.

**Cyrsiau Cynradd  Ebrill 2007– Mawrth 2008**

| Enw'r cwrs | Nifer o Wynedd |
|---|---|
| **Clwstwr –Arfon  (1)** Dyniaethau: Cynllunio, datblygu a myfyrio mewn gwersi addysg grefyddol, daearyddiaeth a hanes. | 19 |
| **Clwstwr –Arfon (2)** Asesu ar gyfer dysgu yn y dyniaethau. | 13 |
| **Clwstwr – Meirion/Dwyfor (1)** Dyniaethau: Cynllunio, datblygu a myfyrio mewn gwersi addysg grefyddol, daearyddiaeth a hanes. | 18 |
| **Clwstwr – Meirion/Dwyfor (2)** Asesu ar gyfer dysgu yn y dyniaethau. | 14 |
| **HADA** (cwrs Dyniaethau 5 diwrnod oedd yn cynnwys diwrnod o hyfforddiant ar 'Cwricwlwm 2008: Addysg Grefyddol') | 10 |

**Cyrsiau Uwchradd Ebrill 2007– Mawrth 2008**

| Enw'r Cwrs | Nifer o Wynedd |
|---|---|
| **Consortiwm - Arfon (1) :** Goblygiadau Cwricwlwm 2008 i ddysgwyr | 10 |
| **Consortiwm - Arfon (2)** Datblygu sgiliau llafaredd disgyblion mewn gwersi addysg grefyddol | Canslwyd oherwydd salwch |
| **Consortiwm – Meirion Dwyfor (1) :** Goblygiadau Cwricwlwm 2008 i ddysgwyr | 7 |
| **Consortiwm – Meirion Dwyfor (2)** Addysg grefyddol a Byd Gwaith | 8 |

**2.7.2 Hyfforddiant ac ymweliadau arbennig dan nawdd CYSAGau Gwynedd a Môn**

Ni chynhaliwyd cynhadledd HMS i athrawon ac aelodau Gwynedd a Môn yn ystod 2007-8. Fodd bynnag, sefydlwyd gweithgor o athrawon cynradd ac uwchradd o Wynedd a Môn i baratoi canllawiau ac arweiniad enghreifftiol i gefnogi y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol newydd.

**2.7.3 Cyrsiau HMS 2008-9**

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw penaethiaid cynradd wrth iddynt lunio'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Ymateb i Faes Llafur Cytun newydd Gwynedd a Môn.
- Gwneud ymchwiliadau addysg grefyddol gyda disgyblion CA2.
- "Help!  Rwy'n cydlynydd pwnc!". Datblygu rôl cydlynydd pwnc.

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw'r tiwtoriaid proffesiynol uwchradd a'r paneli pwnc wrth iddynt lunio rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Datblygu sgiliau o fewn y pwnc ar draws pob cyfnod allweddol gyda phwyslais ar rannu arferion da.
- Meithrin sgiliau dysgwyr CA3 (Lat Blaylock, golygydd ‘RE Today’)
- Addysg Grefyddol a Byd Gwaith (Arfon yn unig)
- Datblygu safle ‘Moodle’ Addysg Grefyddol

## 2.8 Addysg Grefyddol ac APADGOS

Mae AADGOS wedi cyflwyno fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Dyma’r tro cyntaf i AG gael ei chynnwys mewn adolygiad o’r cwricwlwm ac felly mae’n cynnig cyfle unigryw i’r 22 CYSAG yng Nghymru i ymateb i’r ymgynghoriad. Mae’r ddogfen yn dilyn yr un diwyg â’r gorchmynion cwricwlwm eraill, ond mae modd i AALl’au ei addasu neu ei fabwysiadu. Mae aelodau CYSAG Gwynedd, fel CYSAGau eriall ar draws Cymru wedi cymeradwyo’r ymdrech i greu fframwaith cenedlaethol i ysgolion Cymru fel modd o sicrhau bod:

- dealltwriaeth cytunedig o natur Addysg Grefyddol ymhlith athrawon, disgyblion, rhieni ac aelodau o’r cyhoedd;
- athrawon ar draws Cymru yn gallu cydweithio er mwyn rhannu arferion da a chydweithio i ddatblygu dogfennau enghreifftiol
- awduron a chyhoeddwyr yn gallu datblygu adnoddau er mwyn hybu arferion da.
- dealltwriaeth cytunedig o safonau addysg grefyddol.

Mae’r ymgynghorydd dyniaethau wedi croesawu’r cyfle i drafod y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol gydag ymgynghorwyr addysg grefyddol ardaloedd eraill yng Nghymru mewn cyfarfod arbennig o’r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Mae pwyllgor gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru a PYCAG yn ystyried ffyrdd o gydlynu’r gwaith a wneir ar draws Cymru.

## 2.9 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 Y Swyddfa Gymreig y dylai’r Awdurdod Addysg weithio gyda’i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac i ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o’r fath.

Rhaid i’r addoliad fod “yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad”. Mae’r weithdrefn “penderfynu” yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu’r cyfan o’r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

Dosbarthwyd copi o ‘Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol’ (ESTYN, Mehefin 2008) i’r aelodau.

### 2.9.1 Penderfyniadau

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASWUT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2007-8

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | | |
|---|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | - | Y Parch Gwyn Thomas |
| | - | Mr Wyn Meredith (Mehefin 08) |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | - | Mrs Ruth Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | - | Mr Gwyn Hefin Jones |
| Yr Eglwys yng Nghymru | - | Y Parch Tegid Roberts |
| Undeb yr Annibynwyr | - | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Gatholig | - | Mrs Eirian Bradley Roberts |

### Athrawon

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | - | Mr Dafydd Fôn Williams |
| | - | Mr Paul M Jones(Mehefin 08) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | - | Mr Noel Dyer |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau | - | Mrs Gwenda M Jones |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | - | Mr Euron Hughes |
| Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr | - | *disgwyl enwebiad* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon | - | Mr Robin Williams |

### Aelodau Lleol

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Selwyn Griffiths **(Cadeirydd)** | } | Plaid Cymru |
| Arwel Jones | } | |
| Pat Larsen | } | |
| Glyn Owen | } | |
| Huw Edwards (Mehefin 08) | ) | |
| R Arwel Pierce | } | Annibynnol |
| Dafydd W Roberts (Mehefin 08) | ) | |
| Guto Rhys Thomas (Mehefin 08) | ) | |
| Bill Lovelock | } | Llafur |
| Anwen Davies | ) | Llais Gwynedd |
| W. M. Meredith | } | Rhyddfrydwyr Democrataidd |
| Stephen Churchman (Mehefin 08) | ) | |

**Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
Meinir Owen (Cadeirydd)
Evie Morgan Jones (Is-Gadeirydd)
Anne Lloyd Jones (Is Gadeirydd : Mehefin 08)

**Aelodau Cyfetholedig (dibleidlais)**

- Mr Rheinallt Thomas
- Y Parch Gwyn Rhydderch
- Y Parch Aled Davies

### 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2007-2008

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2007 – 2008 cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dair achlysur:

10 Hydref 2007
6 Chwefror 2008
18 Mehefin 2008

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

a) **Cyfarfod 10 Hydref 2007**
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2006/2007
- Safonau CA3 a chanlyniadau Arholiadau TGAU a Safon Uwch 2007
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 28 Mehefin 2007
- Pwyllgor Craffu Plant a phobl Ifanc : enwebu cynrychiolydd.

b) **Cyfarfod 06 Chwefror 2008**
- Arolygiadau ysgolion
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Cymdeithas CYSAGau Cymru – cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nglyn Ebwy ar 4 Rhagfyr 2007.
- Adroddiad blynyddol (terfynol) CYSAG Gwynedd 2006/7
- Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol

c) **Cyfarfod 18 Mehefin 2008**
- Addysg Grefyddol ar lawr y Dosbarth: Ysgol Bro Lleu
- Arweiniad ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anewadol
- Arolygiadau ysgolion
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Maes Llafur Cytun Gwynedd a Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru – cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 14 Mawrth 2008.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol :

- Mr Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)
- Mr Wyn Meredith (CYSAG Gwynedd)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau

**5.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i CYSAG fel a ganlyn:

Mr Dewi Jones, Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion
Mr John Blake, Swyddog Addysg Meirion Dwyfor sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Carol Llewelyn Jones, Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol rhan amser.
Mrs Glynda O'Brien, Uned Bwyllgorau, Cyfadran Adnoddau, sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Swyddfa Addysg, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH.

## 5.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

Y Pwyllgor Pwnc Addysg, Diwylliant a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc
Ysgolion Awdurdod Addysg Gwynedd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (AADGOS)
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor
Llyfrgelloedd Cyhoeddus Gwynedd
Cymdeithas CYSAGau Cymru